estyn.llyw.cymru

estyn.gov.wales

# Cyfranogiad disgyblion: canllaw arfer orau

Rhagfyr 2016



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **4** |
| **Nodweddion ysgolion lle mae cyfranogiad disgyblion yn gadarn:** | **6** |
| • Gweledigaeth ac ethos | 6 |
| • Rolau a strwythurau | 15 |
| • Cyfleoedd i gymryd rhan | 19 |
| • Hyfforddi a datblygu | 24 |
| **Atodiad 1: Sail y dystiolaeth** | **27** |
| **Atodiad 2: Safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc** | **29** |
| **Atodiad 3: Cynnwys disgyblion mewn rhestrau gwirio arferion** | **30** |
| **Atodiad 4: Geirfa** | **33** |
| **Cyfeiriadau** | **34** |

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn 2016-2017. Mae'r adroddiad yn archwilio pedair o nodweddion ysgolion lle mae cyfranogiad disgyblion yn gadarn ac mae'n nodi'r cyfraniad y gall cyfranogiad disgyblion ei wneud at wella ysgol, yn ogystal â'r manteision i'r disgyblion eu hunain. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer orau ac mae'n seiliedig ar y dystiolaeth yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad wedi ei fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, llywodraethwyr, penaethiaid, uwch arweinwyr a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol. Gallai fod o ddiddordeb i'r rheiny sy'n gweithio gydag ysgolion ffydd trwy awdurdodau esgobaethol hefyd. Mae wedi ei fwriadu i gynorthwyo ysgolion i wella graddau ac effaith cyfranogiad disgyblion yn eu hysgol eu hunain.

At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir cyfranogiad fel bod llais disgyblion yn cael ei glywed pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio ar eu haddysg a'u bywydau yn fwy cyffredinol, a chael eu cynnwys yn weithredol yn y penderfyniadau hynny a wneir.

## Cefndir

Yn 2004, cynhaliodd Prosiect Cyfranogiad Llywodraeth Cymru gystadleuaeth i lunio diffiniad cenedlaethol o gyfranogiad a fyddai'n hawdd ei ddeall ar gyfer oedolion a phobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2011). Dyma'r diffiniad a ddefnyddir yn eang:

*"Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis"*

Gwelir y sylfaen ar gyfer cyfranogiad disgyblion yn erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP: UNICEF UK, 1990). Yn erthygl 12 CCUHP, mae'n amlinellu hawliau plant a phobl ifanc i fynegi barn a bod y farn honno'n cael ei hystyried ar unrhyw fater sy'n effeithio arnynt.

"*Mae gan bob plentyn yr hawl i gael dweud ei farn ynghylch pob mater sy'n effeithio arno, a bod y farn honno'n cael ei chymryd o ddifrif"* (UNICEF UK, 1990, tud. 5).

Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i ymgorffori egwyddorion CCUHP mewn deddfwriaeth. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru CCUHP fel y sylfaen ar gyfer llunio polisïau i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004). Trwy gyflwyno deddfwriaeth gyda Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rhaid i holl Weinidogion Cymru roi ystyriaeth briodol i'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn CCUHP yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Yn Ionawr 2004, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Plant a phobl ifanc: Gweithredu’r Hawliau’ (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004b). Yn yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio plant a phobl ifanc fel ‘deiliaid hawliau’:

*"Dylid trin plant a phobl ifanc fel dinasyddion ifanc, a dylid ystyried eu hawliau a’u barn. Nid ydynt yn rhywogaeth ar wahân, i’w galw yn angylion ac yn ddemoniaid bob yn ail, nac yn oedolion dan hyfforddiant sydd heb eto ennill eu lle’n iawn mewn cymdeithas".* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, tud. 4)

Mae’n ofynnol i’r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (heblaw ysgol feithrin a gynhelir ac ysgol fabanod a gynhelir) gael cyngor ysgol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2005). Diben cyngor ysgol yw gwneud yn siwr bod llais y disgybl yn cael ei gynrychioli’n dda wrth i ysgol ddatblygu a rhoi polisïau newydd ar waith ac yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae cynghorau ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion drafod materion yn ymwneud â’u hysgol, a chyflwyno sylwadau i’r corff llywodraethol a’r pennaeth. Gall cyngor ysgol hefyd gynnig a bwrw ymlaen â mentrau a phrosiectau ar ran eu cyfoedion, a chymryd rhan mewn cynllunio strategol fel cynllun datblygu’r ysgol, cyfarfodydd y corff llywodraethol a phenodiadau staff. Rhaid i’r cyngor ysgol gael ei ethol yn ddemocrataidd a chyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.

Yn 2007, lansiodd Llywodraeth Cymru Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Cymru (Atodiad 2: Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007). Mae’r saith safon wedi eu bwriadu i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau a fydd yn effeithio arnyn nhw yn uniongyrchol. Mae canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, ‘Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol’ yn gwneud cyfeiriadau penodol at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc, tra bod Atodiad B y canllawiau ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn amlinellu’r disgwyliad i fabwysiadu’r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol wrth weithio gyda phartneriaid, i alluogi plant a phobl ifanc i gael llais. Mae dyletswydd wedi bod ar awdurdodau lleol i alluogi cyfranogiad plant a phobl ifanc ers pasio Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) yn 2010 ac mae canllawiau statudol wedi bod ar waith er 2012. Mae’r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad wedi cael eu hadnewyddu yn ddiweddar yn 2016 ac maent yn ganllaw ar y ffyrdd gorau a mwyaf ystyrlon o wrando ac ymateb i leisiau plant a phobl ifanc, yn unol ag Erthygl 12 CCUHP.

Rhwng 2007 a 2009, cyhoeddodd Estyn gyfres o adroddiadau ar gyfranogiad plant a phobl ifanc:

- Cyfranogiad mewn ysgolion cynradd (Estyn, 2007)
- Cyfranogiad a chynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd (Estyn, 2008)
- Arolygu cyfranogiad a’r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (Estyn, 2009)

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ‘Dyfodol Llwyddiannus’ (Donaldson, 2015). Mae’r adroddiad yn nodi pedwar diben allweddol ar gyfer y cwricwlwm. Dylai’r cwricwlwm helpu pob plentyn ac unigolyn ifanc i fod:

- yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy’n barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy’n barod i gymryd rhan lawn mewn bywyd a gwaith

- yn ddinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a’r byd, sy’n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a’r byd
- yn unigolion iach a hyderus, sy’n barod i fyw bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Mae cyfranogiad ystyrlon a phwrpasol disgyblion wedi ei fwriadu i fod yn nodwedd gref o’r cwricwlwm newydd.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnyn nhw (Llywodraeth Cymru, 2010). Mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol:

*"gwneud trefniadau fel y maent yn eu hystyried yn addas i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau’r awdurdod a allai effeithio arnyn nhw, a chyhoeddi a chadw gwybodaeth gyfoes am ei drefniadau."* (Llywodraeth Cymru, 2010, tud.9)

Mae awdurdodau lleol yn cyflawni’r cyfrifoldebau hyn trwy swyddog cyfranogiad a enwir ar gyfer pobl ifanc ac un fforwm ieuenctid neu fwy sy’n cynrychioli llais pobl ifanc ar lefel leol.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae cyfranogiad disgyblion yn gryf mewn ysgolion sydd â'r nodweddion canlynol:

- Mae cyfranogiad disgyblion a meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn rhan annatod o **weledigaeth ac ethos** yr ysgol. Mae gan arweinwyr a rheolwyr strategaeth glir ar gyfer hyrwyddo cyfranogiad ac ar gyfer meithrin perthnasoedd da. Maent yn cefnogi ac yn annog cyfranogiad agored a gonest. Mae arweinwyr yn creu ethos lle mae disgyblion yn parchu hawliau pobl eraill ac yn deall pwysigrwydd amrywiaeth a chydraddoldeb.

- Mae **rolau a strwythurau** clir ar waith ar draws yr ysgol i gofnodi safbwyntiau disgyblion ar ystod eang o faterion yn ymwneud â gwella'r ysgol. Mae staff yn cymryd safbwyntiau disgyblion o ddifrif ac yn gweithredu yn unol â nhw. Mae disgyblion, staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chyfranogiad. Gall arweinwyr ddangos effaith cyfranogiad ar gynllunio gwella ysgol.

- Caiff disgyblion **gyfleoedd** eang **i gymryd rhan** yn yr ysgol a thu hwnt, i gyfrannu at drafodaethau a dylanwadu ar benderfyniadau ar draws ystod eang o faterion sy'n effeithio arnyn nhw. Mae'r cyfleoedd hyn yn annog disgyblion i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen i fod yn ddinasyddion gweithredol.

- Mae disgyblion a staff yn elwa ar **hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus** o ansawdd da sydd wedi ei dargedu'n dda i ddatblygu'r medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i sicrhau bod llais disgyblion yn cael ei glywed mewn trafodaethau ac wrth wneud penderfyniadau.

2 Pan fydd cyfranogiad disgyblion yn gadarn, mae disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at wella'r ysgol trwy ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch lles, profiadau dysgu, ac ansawdd yr addysgu, a thrwy helpu i nodi blaenoriaethau'r ysgol yn y dyfodol. Dywed llawer o ysgolion fod cyfranogiad disgyblion yn cyfrannu at amgylchedd ac ethos ysgol gwell, ac at berthnasoedd gwell rhwng pawb yng nghymuned yr ysgol.

3 Mae manteision i ddisgyblion hefyd mewn cyfranogiad gwell, gan gynnwys iechyd a lles gwell, ymgysylltu ac ymddygiad gwell, a gwelliannau mewn dysgu, cyflawniadau a pherfformiad yn yr ysgol. Trwy eu hymglymiad gwell mewn gwneud penderfyniadau, mae disgyblion yn datblygu medrau personol a chymdeithasol gwerthfawr, fel gwrando, cyfathrebu, trafod, blaenoriaethu a gweithio gydag eraill. Maent hefyd yn ennill dealltwriaeth well o hawliau aelodau eraill o gymuned yr ysgol ac o ganlyniadau gweithredoedd sy'n effeithio ar bobl eraill. Caiff disgyblion eu paratoi'n well i fod yn ddinasyddion moesegol, gwybodus a gweithredol Cymru a'r byd, a daw eu hagweddau tuag at ddinasyddiaeth weithredol yn fwy cadarnhaol.

4 Mae bron pob un o'r ysgolion a arolygwyd rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2016 yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau Cyngor Ysgol. Bron ym mhob ysgol, mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad gwerth chweil tuag at wella amgylchedd dysgu'r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, ystyrir safbwyntiau disgyblion ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch bywyd yr ysgol.

5 Mae Estyn yn casglu safbwyntiau disgyblion trwy holiadur a gyhoeddir cyn arolygu pob ysgol, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau nas cynhelir. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo bod staff yn eu parchu ac yn eu helpu i ddeall pobl eraill a'u parchu. Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain a chymryd cyfrifoldeb. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo hefyd fod staff yn eu trin yn deg ac yn eu parchu a bod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gwneud newidiadau y maent yn eu hawgrymu. Mae crynodeb o ganfyddiadau'r holiaduron yn Atodiad 1.

# Nodweddion ysgolion lle mae cyfranogiad disgyblion yn gadarn

## Gweledigaeth ac ethos

6 Mewn ysgolion hynod effeithiol, mae gan arweinwyr a rheolwyr weledigaeth a strategaeth ysgol gyfan glir ar gyfer hyrwyddo cyfranogiad disgyblion ar draws yr ysgol. Maent yn cydnabod bod cyfranogiad ystyrlon disgyblion yn ganolog i bob agwedd ar wella'r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, caiff cyfranogiad disgyblion ei ymgorffori'n dda ac mae'n rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae arweinwyr yn creu ethos lle mae disgyblion a staff yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill ac yn datblygu dealltwriaeth o effaith eu gweithredoedd wrth wneud penderfyniadau. Yn yr ysgolion hyn, ceir ymrwymiad cryf i gynhwysiant a chroesawu amrywiaeth a chydraddoldeb.

7 Cydnabuwyd bod rhai ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yn 'ysgolion sy'n parchu hawliau'. Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn canolbwyntio ar hawliau plant mewn ysgolion ac yn defnyddio ymagwedd ysgol gyfan at addysg ar hawliau plant. Mae hyn yn cynnwys dysgu am hawliau a dysgu oddi wrth hawliau. Dywed yr ysgolion hyn fod dysgu am hawliau a gweithio tuag at y wobr yn galluogi disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus a thyfu i fod yn ddinasyddion hyderus, gweithredol a grymus.

8 Yn Ysgol Gynradd Hafod, mae'r ysgol wedi datblygu ethos cynhwysol lle caiff hawliau disgyblion eu parchu. Mae arweinwyr, staff a disgyblion yn deall bod eu hawliau dim ond yn cael eu gwireddu os bydd pawb yn dysgu parchu ei gilydd ac yn deall bod 'eu hawliau nhw yn hawliau i bawb'. Barnwyd bod ymagwedd Ysgol Gynradd Hafod at barchu hawliau yn rhagorol yn ei harolygiad diweddaraf. Mae'r ysgol yn rhannu ei harfer yn rheolaidd ag ysgolion eraill yn lleol ac yn cyflwyno mewn cynadleddau gwella ysgolion rhanbarthol a chenedlaethol.

### Astudiaeth achos 1: Ysgol Gynradd Hafod

Mae ethos a diwylliant cynhwysol yn hyrwyddo cyfranogiad effeithiol gan ddisgyblion wrth wneud penderfyniadau ac yn golygu bod safbwyntiau disgyblion yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol yr ysgol. Ar wefan yr ysgol, ceir ystod eang o wybodaeth gan gynnwys fideo defnyddiol a wnaed gan ddisgyblion am waith cyfranogi yn yr ysgol:
http://www.hafodprimary.co.uk/

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Hafod yn gwasanaethu hen ardal ddiwydiannol gerllaw canol dinas Abertawe. Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 233 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Mae tua 30% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigur hwn yn uwch na'r ffigur cenedlaethol, sef 19%.

Mae ychydig dros ddau o bob pum disgybl yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Caiff 15 o ieithoedd gwahanol eu siarad gan ddisgyblion, a'r iaith fwyaf cyffredin o'u plith yw Sylheti. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad ychydig o Gymraeg gartref.

**Diwylliant ac ethos**

Mae arweinwyr ar bob lefel yn Ysgol Gynradd Hafod yn hyrwyddo ethos cynhwysol a gofalgar lle caiff pawb ei werthfawrogi. Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hawliau a'u cyfrifoldebau yn treiddio trwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn rhannu eu dealltwriaeth am hawliau a chyfrifoldebau gyda'u teuluoedd yn y gymuned leol a gydag ysgolion ledled Abertawe.

Rhoddir pwyslais cryf iawn ar ddathlu gwahaniaeth ac amrywiaeth trwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a'r arddangosfeydd lliwgar iawn, sy'n dathlu a gwella dysgu disgyblion. Caiff pob disgybl yr un cyfle i elwa ar fywyd a gwaith yr ysgol ac mae arweinwyr yn cyflawni hyn trwy bolisïau clir, sy'n dangos sut mae'r ysgol yn ymgysylltu â disgyblion a'r gymuned leol. Mae athrawon a staff cymorth yn hyrwyddo parch am bob unigolyn yn arbennig o dda.

**Gweithredu**

Mae gan yr ysgol ystod arloesol o grwpiau llais y disgybl fel y 'criw gofalgar', y 'sgwad iechyd a diogelwch', y grŵp parchu hawliau a'r grŵp cyfranogiad disgyblion. Mae gan bob pwyllgor ei ddisgrifiadau swydd a'i ffurflenni cais ei hun.

Caiff pob disgybl gyfleoedd rheolaidd i ddylanwadu ar wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Er enghraifft, pob dydd Iau, mae cynrychiolwyr o grwpiau amrywiol llais y disgybl yn mynd â blychau awgrymiadau o gwmpas yr ysgol yn barod ar gyfer eu cyfarfodydd ar y dydd Gwener. Wedyn, mae aelodau'r grŵp yn adrodd yn ôl wrth weddill yr ysgol yn y 'gwasanaeth aur' ar brynhawn dydd Gwener.

Caiff pob disgybl ym Mlwyddyn 6 ei gynnwys yn uniongyrchol mewn grŵp cyfranogiad disgyblion. Fel aelodau gweithredol o'r grwpiau, mae disgyblion hŷn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at wneud penderfyniadau ac yn helpu i osod cyfeiriad strategol yr ysgol.

O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hyderus fod yr ysgol yn gwrando ar eu safbwyntiau. Mae'r cyfleoedd hyn yn datblygu hunanhyder, hunan-barch a medrau siarad a gwrando disgyblion.

Mae disgyblion yn cymryd rhan weithredol yng nghylch monitro'r ysgol ac yn cefnogi'r uwch dîm rheoli wrth arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol.

Mae aelodau o'r grŵp cyfranogiad disgyblion yn cynnal arsylwadau gwersi ar y cyd â staff ac yn cyfweld â disgyblion. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ac yn trafod y rhain yn hyderus gyda staff yn ystod adborth.

Mae'r disgyblion hyn yn rhannu'r deilliannau o arsylwadau gwersi gyda disgyblion eraill a llywodraethwyr. Er enghraifft, yn ystod cylch o arsylwadau gwersi, amlygodd disgyblion fod angen datblygu cyfleoedd i ddisgyblion weithio'n fwy annibynnol. Mae disgyblion yn ysgrifennu eu cynllun gwella eu hunain i ymateb i feysydd datblygu y maent yn eu nodi ac mae'r corff llywodraethol yn monitro hyn yn rheolaidd. Mae disgyblion hefyd yn arfarnu cynllun datblygu'r ysgol, yn cyfrannu at ddatblygiad polisi ac yn creu prosbectws disgyblion ar gyfer darpar ddisgyblion newydd.

Mae aelodau o grwpiau llais y disgybl yn mynychu rhan gyntaf cyfarfod tymhorol y corff llywodraethol ac yn rhoi cyflwyniadau ar eu hadolygiadau. O ganlyniad, mae aelodau o'r corff llywodraethol yn wybodus am safbwyntiau disgyblion ar ansawdd eu profiadau dysgu yn Ysgol Gynradd Hafod.

**Deilliannau**

Mae gwerthoedd yr ysgol ac ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau at addysg wedi galluogi iddi ddarparu profiad ysgol sy'n gymdeithasol gynhwysol ac yn werth chweil. Caiff hyn effaith ar ddisgyblion unigol fel bod llawer ohonynt yn llawn cymhelliant ac yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hymddygiad a'u dysgu eu hunain.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn eu gwerthfawrogi eu hunain, pobl eraill a'u hamgylchedd. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'u hawliau eu hunain ac maent yn parchu hawliau pobl eraill.

Dros gyfnod, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu synnwyr gwell o berthyn i'w hysgol. O ganlyniad, mae presenoldeb ysgol gyfan wedi gwella ac ni fu unrhyw waharddiadau parhaol na chyfnod penodol am dros dair blynedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn dal ati i ganolbwyntio mewn gwersi yn arbennig o dda. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn siarad yn hyderus, er enghraifft wrth gynrychioli eu cyfoedion ar un o grwpiau llais y disgybl.

O ganlyniad i'r ffocws ar hawliau a lles disgyblion, mae eu hymddygiad o gwmpas yr ysgol ac mewn gwersi yn rhagorol. Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella'n sylweddol o waelodlinau isel, ac mae wedi bod yn y 25% uchaf am y tair blynedd ddiwethaf, o gymharu â phresenoldeb ysgolion tebyg yn seiliedig ar gymhwyster i gael prydau ysgol am ddim.

Mae arweinwyr wedi gostwng lefelau absenoliaeth barhaus yn llwyddiannus, sy'n isel iawn erbyn hyn. Mae'r awdurdod lleol wedi rhannu'r gwaith hwn gydag ysgolion eraill, fel enghraifft o arfer orau.

> Mae’r ffocws wedi cael effaith werthfawr ar ddeilliannau disgyblion hefyd. Yng nghyfnod allweddol 2, ar y lefel 4 ddisgwyliedig, mae perfformiad disgyblion ym mhob pwnc yn dangos tuedd o wella. Fe wnaeth perfformiad disgyblion yn 2014 osod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â’u cyfoedion, ond, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae’r disgyblion hyn yn perfformio cystal â’u cyfoedion, ac yn aml yn well.

9 Bron ym mhob un o’r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae staff yn gwneud yn siŵr bod safbwyntiau disgyblion yn cyfrannu at ddatblygu polisïau’r ysgol. Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmiloe, mae disgyblion yn cyfrannu’n helaeth at ddatblygu’r polisïau ymddygiad a gwrthfwlio. Trwy ymgynghori a thrafodaethau ystyrlon, mae’r cyngor ysgol yn gwneud yn siŵr bod pob un o’r disgyblion yn glir ynglŷn â’r diffiniad o fwlio ac mae’n cynnal gweithdai yng ngwasanaethau’r ysgol. Mae’r polisi’n cynnwys arweiniad mewn iaith sy’n hawdd i blant ei deall ar sut i adnabod ymddygiad bwlio, i bwy y dylid rhoi gwybod am broblemau, a’r ffordd orau i greu ysgol sy’n rhydd o fwlio.

10 Mae aelodau o’r cyngor ysgol yn trafod y polisi gwrthfwlio gyda llywodraethwyr. Mae staff a disgyblion yn hyderus y bu effaith gadarnhaol ar ddiogelwch a hapusrwydd disgyblion. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ni chafwyd unrhyw achosion o fwlio nac ymddygiadau cysylltiedig. Gallwch ddarllen yr astudiaeth achos lawn ar ein gwefan: [https://www.estyn.llyw.cymru/best-practice/cynnwys-disgyblion-ym-mholis%C3%AFau%E2%80%99r-ysgol](https://www.estyn.llyw.cymru/best-practice/cynnwys-disgyblion-ym-mholis%C3%AFau%E2%80%99r-ysgol)

11 Mewn llawer o’r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae disgyblion yn mynd ati i wneud penderfyniadau ar draws ystod eang o faterion fel eu profiadau dysgu, addysgu, a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae disgyblion yn gweithio gydag athrawon i gynllunio eu cwricwlwm ac arfarnu gwersi ochr yn ochr ag uwch arweinwyr. Mae hyn yn helpu arweinwyr yr ysgol i wneud yn siŵr bod profiadau dysgu disgyblion yn ystyrlon a pherthnasol.

12 Mae Ysgol Uwchradd Aberteifi wedi dangos ei hethos cynhwysol a’r gwerth y mae’n ei roi i lais y disgybl yn llwyddiannus trwy weithgareddau’r cyngor ysgol ac ystod o grwpiau ffocws effeithiol. Mae’r cyngor ysgol a grwpiau ffocws yn gweithio’n agos gyda’r pennaeth a’r uwch dîm arweinyddiaeth i wella ansawdd y ddarpariaeth a lles yn yr ysgol. Caiff polisïau’r ysgol ar bresenoldeb, gwrthfwlio ac ymddygiad eu rhannu ag ysgolion eraill ledled y rhanbarth. Barnwyd bod lles yn rhagorol yn adroddiad diweddaraf yr ysgol. Bernir bod effaith cyfranogiad disgyblion yn arfer sy’n arwain y sector.

**Astudiaeth achos 2: Ysgol Uwchradd Aberteifi**

Caiff disgyblion effaith gadarnhaol ar wella ansawdd marcio ac asesu yn eu hysgol.

**Cyd-destun**

Ysgol ddwyieithog naturiol ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed yw Ysgol Uwchradd Aberteifi, a gynhelir gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae’r ysgol yn nhref arfordirol Aberteifi ac mae’n derbyn disgyblion o ddalgylchoedd gwledig eang. Mae 586 o ddisgyblion ar y gofrestr, a 97 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae bron 20% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%. Mae tua 13% o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan yr ysgol uned addysg arbennig o’r enw Canolfan Seren Teifi.

Mae pedwar deg y cant o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion addysgol arbennig, ac mae gan 1.6% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae’r ffigurau hyn gryn dipyn yn uwch na’r cyfartaleddau cenedlaethol. Daw tri deg y cant o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel y brif iaith. Fodd bynnag, mae 51% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith neu i safon gyfatebol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

**Diwylliant ac ethos**

Mae’r pennaeth yn cyfleu gweledigaeth glir, a ddeellir yn dda am wella’r ysgol wrth staff, disgyblion, llywodraethwyr a rhieni. Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol, ac mae ganddi ethos cefnogol a gofalgar iawn. Mae ganddi ddiwylliant cryf o ddathlu amrywiaeth. Caiff pob un o’r disgyblion, beth bynnag fo’u hanghenion a’u cefndiroedd, eu hannog i lwyddo yn unol â datganiad cenhadaeth yr ysgol, sef ‘Bydd pob disgybl yn llwyddo’.

**Gweithredu**

Mae’r cyngor ysgol yn cyfrannu’n sylweddol at wella’r ysgol yn Ysgol Uwchradd Aberteifi. Mae’r pennaeth a’r uwch arweinwyr yn gweithio gyda grwpiau ffocws ar faterion penodol sy’n codi hefyd, fel ansawdd amgylchedd yr ysgol, safonau lles, cysondeb marcio ac asesu a gosod targedau.

Mae aelodau o’r cyngor ysgol yn gwneud gwaith i godi ymwybyddiaeth am bob math o fwlio a hyrwyddo polisi “dim goddefgarwch”. Mae disgyblion yn arwain gwasanaethau ysgol gyfan, yn gweithio gydag uwch staff i ddatblygu’r polisi a phrotocolau gwrthfwlio, ac yn datblygu taflenni gwybodaeth gwrthfwlio ar gyfer disgyblion a rhieni. Caiff hyn effaith sylweddol ar wella dealltwriaeth y disgyblion o wahanol fathau o fwlio a’r gweithdrefnau a ddefnyddir ar gyfer delio ag ef.

Yn ddiweddar, cynhaliodd cyngor yr ysgol adolygiad addysgu a dysgu o farcio ac asesu. Fe wnaethant gasglu safbwyntiau disgyblion ar effeithiolrwydd y polisi marcio ac asesu, ac wedyn cyflwyno eu casgliadau a'u hargymhellion ar gyfer gwelliannau i'r uwch dîm arweinyddiaeth ar ddiwedd yr adolygiad. Derbyniodd yr uwch dîm arweinyddiaeth yr argymhellion, gan adrodd yn ôl amdanynt wrth arweinwyr cyfadrannau a chynnwys disgyblion wrth adolygu'r cylch monitro a chynllun datblygu'r ysgol. O ganlyniad, mae marcio ac asesu'n fwy cyson ar draws yr ysgol ac mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr iawn o'r polisi asesu.

Yn ogystal â'r adolygiad manwl, mae disgyblion yn cwblhau arolwg ysgol gyfan ar addysgu a dysgu ddwywaith y flwyddyn. Caiff deilliannau'r arolwg eu dadansoddi gan uwch arweinwyr ac arweinwyr cyfadrannau ac fe'u defnyddir i lywio'r adolygiadau cyfadrannau a chynlluniau hunanarfarnu a gwella cyfadrannau. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio deilliannau'r arolygon i nodi cryfderau o fewn cyfadrannau, ac ar eu traws. Maent yn rhannu enghreifftiau o arfer dda a amlygwyd gan ddisgyblion ar draws cyfadrannau.

Mae'r cyngor ysgol yn cynnal arolygon ar-lein i gasglu barn, sylwadau ac adborth disgyblion. Er enghraifft, datblygodd y 'cod ansawdd athrawon' trwy gasglu safbwyntiau disgyblion ar strategaethau a dulliau addysgu. O ganlyniad, mireiniodd yr ysgol ei model addysgu a dysgu, gan wneud yn siŵr bod gwersi'n cael eu cynllunio i gynnwys gweithgareddau cychwynnol ysgogol, rhediad bywiog ac ystod eang o dasgau ystyrlon. Mae disgyblion a staff wedi datblygu'r gwaith hwn yn ddiweddar i gynnwys 'cod ansawdd disgyblion'.

Mae'r cyngor ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'r corff llywodraethol. Mae'r llywodraethwyr cysylltiol sy'n ddisgyblion yn mynychu cyfarfod tymhorol y corff llywodraethol ac mae pob agenda yn cynnwys eitem sydd wedi ei neilltuo i'r cyngor ysgol. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn recriwtio staff newydd. Cânt eu cynnwys mewn arsylwadau gwersi wrth benodi staff newydd, maent yn cynnal eu panel cyfweld eu hunain ac yn adrodd yn ôl wrth y panel o lywodraethwyr ac uwch arweinwyr.

**Deilliannau**

Mae ffocws yr ysgol ar wella lles disgyblion wedi cael effaith sylweddol ar wella presenoldeb, ymddygiad a deilliannau ar draws yr ysgol.

Trwy'r cyngor ysgol, mae disgyblion wedi cael dylanwad sylweddol ar faterion fel gwella ansawdd marcio ac adborth, mireinio polisïau gwrthfwlio, lleihau achosion o fwlio a gwella ansawdd y wisg ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu at benderfyniadau am amgylchedd a chyfleusterau'r ysgol, er enghraifft datblygu'r gampfa newydd a'r rhaglen helaeth o glybiau a gweithgareddau. Mae cyfranogiad disgyblion mewn gwneud penderfyniadau yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol o dda ac mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Ni fu unrhyw

waharddiadau cyfnod penodol yn ystod y 18 mis diwethaf ac ni fu gwaharddiad parhaol am dair blynedd. Mae'r ffigurau hyn yn cymharu'n dda â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol ac yn dangos gwelliant sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae presenoldeb disgyblion yn rhagorol. Mae cyfraddau presenoldeb dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% o ysgolion tebyg ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw deilliannau wedi'u modelu. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae'n gyson uwchlaw presenoldeb yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg ac yn genedlaethol.

13 Bron ym mhob un o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae cyfranogiad disgyblion wedi gwella perthnasoedd yn yr ysgol ac wedi helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau a'r wybodaeth sydd eu hangen i fod yn ddinasyddion gweithredol. Mae staff a disgyblion wedi mabwysiadu agwedd gadarnhaol tuag at gyfranogiad disgyblion ac maent yn deall manteision hyn i ddisgyblion ac i'r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, ceir ethos o barch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr.

14 Pan fydd cyfranogiad ystyrlon yn datblygu perthnasoedd gweithio da rhwng staff a disgyblion, mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu medrau bywyd hanfodol fel datrys problemau, trafod a gwneud penderfyniadau. Trwy ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth am ddemocratiaeth, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth well o effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau ar ran pobl eraill.

15 Mewn llawer o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae cyfleoedd cynyddol ar gyfer cyfranogiad yn gwella perthnasoedd rhwng disgyblion. Mewn ysgolion hynod effeithiol, mae oedolion yn dangos perthnasoedd cadarnhaol ac fe gaiff disgyblion eu parchu bob amser. Ceir disgwyliad clir fod yn rhaid i ddisgyblion barchu a chynorthwyo pobl eraill yn eu tro.

16 Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu'n gynyddol â chymuned eu hysgol, ac o ganlyniad, mae eu presenoldeb yn yr ysgol, eu hymddygiad, eu cyflawniad a'u cyrhaeddiad yn gwella. Mae cynnwys disgyblion mewn trafodaethau ystyrlon yn datblygu eu hunanhyder a'u hunan-barch hefyd. Mae'n cryfhau eu cred yn eu gallu i greu newid, a dylanwadu arno. Trwy gyfrannu at wneud penderfyniadau a gwelliannau yng nghymuned eu hysgol, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth well ac agwedd gadarnhaol tuag at ddinasyddiaeth weithredol.

17 Yn ysgol arbennig Ysgol Penmaes, mae disgyblion, staff, uwch arweinwyr a llywodraethwyr, yn gweithio gyda'i gilydd i nodi cryfderau'r ysgol a nodi meysydd i'w gwella. Caiff yr holl ddisgyblion eu cynnwys yn agos ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol. Trwy'r gwaith hwn, mae pob un o'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth well o flaenoriaethau'r ysgol ac maent yn datblygu perchnogaeth gref o agenda gwella'r ysgol. Mae hyn yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws cymuned yr ysgol. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, barnwyd bod gwaith y cyngor ysgol yn arwain y sector.

## Astudiaeth achos 3: Ysgol Penmaes

Mae disgyblion yn cyfrannu'n frwdfrydig at ddatblygu cyfeiriad strategol yr ysgol.

**Cyd-destun**

Ysgol ddydd arbennig yw Ysgol Penmaes sy'n darparu addysg ar gyfer 110 o ddisgyblion rhwng 2 ac 19 oed. Mae'r ysgol yn Aberhonddu ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Powys.

Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod eang o anawsterau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys anawsterau dysgu difrifol, anhwylder y sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu dwys a lluosog. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Nid oes unrhyw ddisgybl wedi cael ei ddatgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref. Mae tua 31% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim ac mae 10% yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.

**Diwylliant ac ethos**

Datganiad cenhadaeth yr ysgol yw 'Gyda'i Gilydd, Mae Pawb yn Cyflawni Mwy'. Mae'n hyrwyddo'r genhadaeth yn dda ac mae hyn yn gosod y safonau ar gyfer cynwysoldeb yn Ysgol Penmaes. Ceir ethos hynod gefnogol a chadarnhaol ar draws yr ysgol, gyda ffocws cryf ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r ysgol yn effeithiol o ran cael gwared ar rwystrau rhag dysgu a chyfranogi.

**Gweithredu**

Mae Ysgol Penmaes yn canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cyfranogi amrywiol ar gyfer cymuned yr ysgol gyfan ac mae'n cydnabod bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar berthnasoedd ar draws yr ysgol. Maent wedi datblygu strwythurau a chymorth i alluogi pob un o'r disgyblion i gyfrannu at daith yr ysgol i wella.

Yn Ysgol Penmaes, ceir llawer o wahanol ffyrdd i ddisgyblion gyfleu eu safbwyntiau a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. Pan nodir bod cyfathrebu yn peri anhawster i unigolion neu grwpiau o ddisgyblion, mae'r ysgol yn datblygu strategaethau i wneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan a dylanwadu ar benderfyniadau. O ganlyniad, mae staff yn datblygu dealltwriaeth well o anghenion a diddordebau eu disgyblion. Mae disgyblion yn teimlo'n hyderus fod staff yn gwrando arnynt a bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi.

Ceir cyngor ysgol effeithiol. Caiff aelodau'r cyngor ysgol eu hethol gan eu cyfoedion ac maent yn ymgymryd â'u rolau yn frwdfrydig. Mae gan y cyngor ysgol gyllideb i brynu adnoddau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn datblygu

dealltwriaeth disgyblion o’r angen i flaenoriaethu a chyllidebu fel rhan o’u rôl fel aelodau o’r cyngor.  Mae’r cyngor ysgol yn trafod ystod eang o faterion fel amgylchedd yr ysgol, ansawdd ffreutur yr ysgol, profiadau dysgu a hunanarfarnu.  Fel rhan o’i gwaith, mae wedi creu prosbectws defnyddiol a hygyrch iawn ar gyfer darpar ddisgyblion.

Cyflwynodd yr uwch arweinwyr ddiwrnod hunanarfarnu ar gyfer disgyblion, staff a llywodraethwyr i wneud yn siŵr bod pob un o’r disgyblion yn cyfrannu at gyfeiriad strategol yr ysgol.  Yn ystod y diwrnod hunanarfarnu, mae staff ac arweinwyr yr ysgol yn gweithio gyda disgyblion i gael eu safbwyntiau ar bob agwedd ar yr ysgol, fel dysgu ac addysgu, ansawdd y gofal, adeiladau’r ysgol ac ansawdd yr amgylchedd dysgu awyr agored.  Mae’r ysgol wedi cyflwyno ystod o strategaethau i wneud yn siwr bod pob disgybl yn cyfrannu’n weithredol at y broses.  Mae disgyblion sy’n fwy abl yn arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol yn hyderus trwy ddefnyddio symbolau ac arwyddion.  Mae disgyblion eraill yn gweithio ochr yn ochr â staff i rannu eu safbwyntiau.

Mae aelodau o’r corff llywodraethol yn mynychu’r diwrnod hunanarfarnu ac yn ennill dealltwriaeth helaeth o safbwyntiau’r disgyblion ar ddarpariaeth a meysydd i’w datblygu.  Mae’r pennaeth yn casglu’r wybodaeth ac mae’n llywio cynllun datblygu’r ysgol.  Er enghraifft, nododd disgyblion eu bod yn mwynhau’r cyfle i ddysgu yn yr awyr agored a bod arnynt eisiau cael mwy o gyfleoedd i wneud hynny’n rheolaidd.  O ganlyniad, buddsoddodd yr ysgol mewn detholiad o offer awyr agored a gwnaeth welliannau i’r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored i ddisgyblion fwynhau eu gwersi yno, lle bo’n briodol.

Mae’r diwrnod hunanarfarnu yn gwneud yn siwr bod pob un o’r disgyblion, y staff a’r llywodraethwyr yn cael cyfle i weithio gyda’i gilydd i nodi cryfderau’r ysgol, meysydd y mae angen eu gwella a blaenoriaethau ar gyfer cynllun datblygu’r ysgol.

**Deilliannau**

Yn Ysgol Penmaes, ceir perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion a rhwng y disgyblion.  Ceir synnwyr clir o ymddiriedaeth ac empathi ar y ddwy ochr am bob aelod o gymuned yr ysgol.  Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o anghenion a dewisiadau eu cyfoedion.  Adlewyrchir hyn yn y penderfyniadau a wna disgyblion fel rhan o’r cyngor ysgol a’r grwpiau cyfranogi.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt a bod eu safbwyntiau a’u barn yn cael eu gwerthfawrogi.  Mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu a’r ysgol.  O ganlyniad, caiff effaith gadarnhaol ar safonau ar draws yr ysgol.  Mae ymddygiad bron pob disgybl, mewn gwersi ac yn ystod y diwrnod ysgol, yn eithriadol o dda.  Ni fu unrhyw waharddiadau parhaol o’r ysgol ers nifer o flynyddoedd ac mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol yn eithriadol o isel.  O ganlyniad, gydag ychydig iawn o eithriadau, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae disgyblion yn ennill ystod eang o achrediad cydnabyddedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 4. Llwyddodd pob disgybl a oedd wedi cofrestru ar gynllun gwobr Dug Caeredin i gyflawni'r lefel efydd ac arian a llwyddodd bron pob un ohonynt i ennill y wobr aur. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol.

Mae nifer yr ymadawyr nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi bod yn gyson isel am nifer o flynyddoedd.

Mae'r ysgol yn cynnwys disgyblion yn rheolaidd mewn trafodaeth am eu dysgu eu hunain. Mae hyn yn datblygu medrau gwrando a chyfathrebu disgyblion yn llwyddiannus. Mae disgyblion hefyd yn gwella eu dealltwriaeth o effaith eu penderfyniadau ar ddisgyblion a phobl eraill yng nghymuned yr ysgol. Er enghraifft, nododd aelodau o'r cyngor ysgol fod angen gwella cyfathrebu ymhellach rhyngddyn nhw eu hunain a phoblogaeth ehangach y disgyblion a rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae arweinwyr yr ysgol, y llywodraethwyr ac aelodau o'r cyngor ysgol yn monitro'r cynllun yn rheolaidd.

**Rolau a strwythurau**

18 Mae bron pob un o'r ysgolion a arolygwyd rhwng Medi 2013 a Gorffennaf 2016 yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau am gynghorau ysgol. Bron ym mhob ysgol, mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad gwerth chweil tuag at wella amgylchedd dysgu'r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, ystyrir safbwyntiau disgyblion yn rheolaidd, ac maent yn dylanwadu ar benderfyniadau fel newidiadau i'r wisg ysgol a gwelliannau i gyfleusterau ysgolion, fel y ffreutur a'r toiledau.

19 Pan fydd cyfranogiad disgyblion yn fwyaf effeithiol, mae gan ysgolion strwythurau cynhwysfawr ar waith i wneud yn siŵr eu bod yn cofnodi barn a safbwyntiau cymuned yr ysgol gyfan. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion, staff, uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn glir ynglŷn â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran sicrhau bod cyfleoedd cyfranogi yn ystyrlon a phwrpasol i bawb. Yn yr ysgolion hyn, ceir systemau democrataidd i ethol aelodau o'r cyngor ysgol, maent yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn ac mae gan lawer o ysgolion lywodraethwyr cysylltiol sy'n ddisgyblion wedi eu henwi.

20 Ym mwyafrif yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, ceir strategaethau effeithiol i wneud yn siŵr bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfle i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed a chymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Er enghraifft, caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau sy'n agored i niwed gymorth priodol a chyfle cyfartal i gyfrannu.

21 Mae'r strwythurau hynod effeithiol yn gwneud yn siwr bod barnau disgyblion yn cael eu hannog, a bod yr ysgol yn gwrando arnynt, ac yn eu parchu a'u gwerthfawrogi. Yn yr ysgolion hyn, mae uwch aelod o staff sydd â chyfrifoldeb clir am gydlynu cyfleoedd cyfranogi. Mae'r staff yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif ac yn darparu arweinyddiaeth a chydlynu cryf. O ganlyniad, caiff disgyblion adborth amserol a phriodol ar eu hawgrymiadau a'u hargymhellion. Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o bolisïau ysgol gyfan, a pharch atynt, gan iddynt fod yn rhan ganolog o'r penderfyniadau a wnaed.

22 Mae’r uwch arweinwyr hyn yn gwneud yn siwr bod digon o amser cwricwlwm ac adnoddau ar gael i ddisgyblion gymryd rhan yn effeithiol. Yn yr ysgolion hyn, mae’r cyngor ysgol a’r grwpiau ffocws yn cyfarfod yn ffurfiol yn ystod amser y cwricwlwm ac yn osgoi amseroedd cinio ac egwyl.

23 Mae gan y corff llywodraethol rôl bwysig mewn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu cyfranogiad disgyblion. Mewn llawer o’r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, ceir cyswllt agos rhwng y corff llywodraethol a grwpiau llais y disgybl. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol y gwnaed arolwg ohonynt, mae’r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ag aelodau o’r cyngor ysgol i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth, ac mae’n nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion hefyd yn gwneud cyflwyniadau rheolaidd i’r corff llywodraethol ac yn rhoi adborth ar eu gwaith, fel arsylwadau gwersi a holiaduron. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth ragorol o ddarpariaeth a meysydd i’w gwella sy’n bwysig i’r disgyblion.

24 Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae’r corff llywodraethol yn nodi llywodraethwr dynodedig ar gyfer cyfranogiad disgyblion. Maent yn mynychu cyfarfodydd y cyngor ysgol yn ôl yr angen ac yn gwneud yn siŵr bod llais y disgybl yn cael ei gynnwys yn holl gyfarfodydd y corff llywodraethol. Mae’r rôl allweddol hon yn helpu i gynnal cysylltiadau effeithiol rhwng y corff llywodraethol a grwpiau llais y disgybl.

25 Mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd y gwnaed arolwg ohonynt, mae rôl y llywodraethwyr cysylltiol sy’n ddisgyblion wedi hen ennill ei phlwyf. Mae cynghorau ysgol mewn ysgolion uwchradd fel arfer yn enwebu dau ddisgybl o Flwyddyn 11 i Flwyddyn 13 ymhlith eu haelodau i fod ar y corff llywodraethol. Mae llywodraethwyr cysylltiol sy’n ddisgyblion yn cynnig safbwynt y disgybl ar gyfer y penderfyniadau a wneir am fywyd yr ysgol a gwella’r ysgol.

26 Yn Ysgol Gyfun Pontarddulais, mae rôl y llywodraethwyr cysylltiol sy’n ddisgyblion yn nodwedd gref. Mae’r ddau lywodraethwr cysylltiol sy’n ddisgyblion yn cynrychioli safbwyntiau’r disgyblion ar y corff llywodraethol. Maent yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol llawn a’r is-bwyllgor yn rheolaidd. Mae’r llywodraethwyr cysylltiol sy’n ddisgyblion yn cyfarfod â’r tîm arweinyddiaeth i drafod deilliannau disgyblion bob blwyddyn. Maent yn gweithio ochr yn ochr â’r tîm arweinyddiaeth hefyd i nodi meysydd blaenoriaeth a chyfrannu at gynllun datblygu’r ysgol. O ganlyniad, mae llais y disgybl yn ganolog yn yr holl benderfyniadau a wna’r tîm arweinyddiaeth a’r corff llywodraethol. Mae disgyblion yn dylanwadu’n uniongyrchol ar newidiadau yn yr ysgol. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth glir o safbwyntiau disgyblion a gwaith yr ysgol. Ym Mawrth 2016, barnwyd bod yr ysgol yn rhagorol ym mhob un o’r dangosyddion ansawdd arolygu, y cwestiynau allweddol a’r barnau cyffredinol. Gallwch ddarllen yr adroddiad arolygu llawn ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Pontarddulais%20Comprehensive%20School_0.pdf

27 Yn Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, mae bron pob un o’r disgyblion yn cymryd rhan lawn yng nghymuned yr ysgol ac yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn trafodaethau sy’n dylanwadu ar eu llwybr dysgu, dewisiadau cyfnod allweddol 4 a chynlluniau gwaith. Yn Hydref 2015, barnwyd bod yr ysgol yn rhagorol yn yr holl ddangosyddion ansawdd arolygu, y cwestiynau allweddol a’r barnau cyffredinol.

## Astudiaeth achos 4: Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed

Mae disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu trwy weithio gyda staff i wella'r cwricwlwm.

**Cyd-destun**

Ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed yw Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed ar ochr ddwyreiniol Abertawe, gyda 644 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 40% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.1%.

Mae gan ryw 39% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25%. Mae gan ryw 5% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ddwywaith yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer Cymru gyfan. Mae gan yr ysgol gyfleuster addysgu arbenigol yr awdurdod lleol ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau dysgu cymedrol ac fe gaiff y disgyblion hyn eu cynnwys ar gofrestr yr ysgol.

**Diwylliant ac ethos**

Mae'r pennaeth yn dangos ymrwymiad grymus i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu ragorol ac mae ei harweinyddiaeth yn gyrru llwyddiant yr ysgol. Mae ei harweinyddiaeth gref ac ymroddedig wedi arwain at welliannau cynaledig ym mherfformiad a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol ethos eithriadol o ofalgar a chynhwysol sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr, a pherthnasoedd cryf rhwng disgyblion, staff a'r gymuned. Caiff arwyddair yr ysgol, 'Os ydych yn credu, gallwch gyflawni', ei blethu ym mhob agwedd ar waith yr ysgol, ac adlewyrchir hyn yn y disgwyliadau uchel a'r agwedd ofalgar a ddangosir gan staff. Mae lefel uchel yr ymddiriedaeth a'r parch rhwng staff a disgyblion yn hyrwyddo dysgu'r disgyblion a'u datblygiad cymdeithasol, ac mae'n nodwedd gadarnhaol o fywyd yr ysgol. Caiff rôl disgyblion mewn dylanwadu ar wneud penderfyniadau ei hymgorffori'n dda ar draws yr ysgol ac mae'n flaenoriaeth a rennir gan arweinwyr, staff a disgyblion.

**Gweithredu**

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod eang o strategaethau i gynnwys disgyblion mewn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu profiadau dysgu a'u lles.

Mae'r ysgol wedi penodi aelod o staff sy'n gyfrifol am gydlynu llais y disgybl ar draws yr ysgol. Mae'r aelod hwnnw yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod cyfathrebu effeithiol rhwng y grwpiau cyfranogi, yr uwch dîm arweinyddiaeth a'r corff llywodraethol.

Nodwedd gref yn yr ysgol yw cyflwyno ‘arweinwyr cwricwlwm sy’n ddisgyblion’. Maent yn cyfarfod ag athrawon i arfarnu rhaglenni astudio, ac yn gwneud penderfyniadau am eu dysgu a’r dewis o strategaethau a gweithgareddau cyfoethogi sy’n ategu llwyddiant.

Mae llais y disgybl yn ganolog i waith y gyfadran ddyniaethau yn yr ysgol. Mae gan y gyfadran arweinwyr cwricwlwm sy’n ddisgyblion a benodwyd yn llwyddiannus yn dilyn proses gyfweld drylwyr. Maent yn cyfarfod â staff y gyfadran bob hanner tymor i adrodd yn ôl ar faterion yn ymwneud â’r cwricwlwm, addysgu a dysgu. Maent hefyd yn cyfrannu at ddatblygu cynlluniau gwaith ac yn dylanwadu ar destunau astudio yn y gyfadran. Er enghraifft, cyflwynodd y gyfadran uned prosiectau annibynnol yn dilyn adborth gan yr arweinwyr cwricwlwm sy’n ddisgyblion.

Mae’r gyfadran wedi rhannu’r arfer hon ar draws yr ysgol a gydag ysgolion lleol eraill trwy hyfforddiant mewn swydd ysgol gyfan. Mae’r gyfadran hefyd yn cynnig hyfforddiant ar gyfer staff y gyfadran a disgyblion cyn iddynt ymgymryd â’u rôl fel arweinwyr cwricwlwm.

Yn yr adran addysg gorfforol, caiff arweinwyr cwricwlwm sy’n ddisgyblion eu penodi o blith capteiniaid tai, unigolion a benodwyd gan y disgyblion a ‘disgyblion ymdrechgar’ (y rheiny sy’n dangos ymroddiad eithriadol yn y pwnc). Mae arweinwyr y cwricwlwm yn dylanwadu ar opsiynau’r cwricwlwm a chyfleoedd allgyrsiol yn y pwnc. Er enghraifft, mae’r adran wedi ymestyn y ddarpariaeth ddawns yn dilyn adborth gan ddisgyblion.

Mae disgyblion o Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn cyfrannu’n rheolaidd at fforymau ymgynghori awdurdodau lleol i lywio blaenoriaethau cyllideb ac opsiynau’r cwricwlwm ar gyfer disgyblion rhwng 14 ac 19 oed.

**Deilliannau**

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt. Mae gan bron bob un o’r disgyblion synnwyr eithriadol o berthyn i gymuned yr ysgol, a lefel uchel o ymwybyddiaeth o’u lles eu hunain ac effaith eu hymddygiad ar bobl eraill. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd i ddylanwadu ar ddewis a darpariaeth ac maent yn mynd ati i ymgymryd ag ystod eang y cyfleoedd a gynigir yn yr ysgol.

O ganlyniad, bu effaith gadarnhaol iawn ar safonau ar draws yr ysgol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, bu tuedd gref o welliant mewn presenoldeb a gostyngiad cyffredinol yng nghyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol.

Mae presenoldeb, ymddygiad ac ymgysylltiad gwell â dysgu wedi cyfrannu’n sylweddol at duedd gref o welliant ym mhob un o’r dangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd ddiwethaf.

Ers cyflwyno’r arweinwyr cwricwlwm sy’n ddisgyblion, mae llawer o gyfadrannau, er enghraifft yn y dyniaethau ac mewn addysg gorfforol, wedi

gweld cynnydd yn nifer y disgyblion ar gyfer cyrsiau TGAU ar ddiwedd cyfnod allweddol 3.

Am y tair blynedd ddiwethaf, ni adawodd yr un disgybl yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig. Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn aros mewn addysg amser llawn.

**Cyfleoedd i gymryd rhan**

28 Mae adroddiad gan Lywodraeth Cymru 'Cyfranogiad Disgyblion – canllaw arfer da' (2011) yn datgan, er mwyn i gyfranogiad disgyblion fod yn ystyrlon ac yn effeithiol, dylai ddigwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd ac ar wahanol lefelau yn yr ysgol. Er enghraifft:

- fel rhan o'r addysgu a'r dysgu
- trwy gynnwys disgyblion mewn hunanarfarnu ysgol ac asesu
- defnyddio Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc
- trwy fecanweithiau ymgynghori fel holiaduron, arolygon, amser cylch, grwpiau ffocws, a blychau awgrymiadau
- trwy grwpiau cyfranogol a chynrychioliadol fel y cyngor ysgol, y pwyllgor eco, ysgolion iach a mentoriaid cyfoedion
- trwy ymglymiad disgyblion â'r corff llywodraethol, ac wrth benodi staff
- trwy gynnwys disgyblion mewn cynllunio, adolygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys cynllun gwella'r ysgol
- trwy gynnwys disgyblion mewn cyllidebu a phenderfyniadau am y modd y caiff arian ei ddyrannu a'i wario
- cael strwythurau ar waith fel y gellir cynnwys disgyblion wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol

29 Mae gan ysgolion effeithiol ethos lle caiff cyfranogiad disgyblion ei werthfawrogi'n fawr ym mhob maes gwaith. Gall cyfranogiad mewn ysgolion fod ar lawer o ffurfiau, gan gynnwys trafodaethau anffurfiol, arfarniadau disgyblion, blychau awgrymiadau, arolygon disgyblion, grwpiau ffocws a'r cyngor ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn cael adborth amserol a phriodol ar eu safbwyntiau a'u hawgrymiadau. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod bod eu safbwyntiau'n cael eu gwerthfawrogi, ac y gweithredir yn unol â nhw.

30 Ym mwyafrif yr ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt, mae disgyblion yn cyfrannu'n rheolaidd at fforymau ieuenctid ac ymgynghoriadau awdurdodau lleol ar flaenoriaethau'r cyngor. Trwy gyfrannu at fforymau cymunedol ehangach, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu synnwyr gwell o gyfrifoldeb cymdeithasol a synnwyr gwell o ymwybyddiaeth o faterion lleol a byd-eang. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o anghenion a hawliau pobl eraill yn eu cymuned leol. Caiff disgyblion gipolwg gwerthfawr ar fywyd yr ysgol a'r gymuned a'u hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain. Mae adborth disgyblion yn 'wiriad iechyd' defnyddiol ar gyfer polisïau ac arfer. Pan fydd disgyblion yn wynebu heriau penodol neu anawsterau personol, maent mewn sefyllfa well i nodi atebion os byddant yn cael y cyfle a'r cymorth i wneud hynny.

31 Mae disgyblion hŷn o Ysgol Gyfun Treorci yn mynychu digwyddiadau ymgynghori'r awdurdod lleol i drafod newidiadau arfaethedig i wasanaethau ac ymgynghori ar flaenoriaethau'r cyngor o ran y gyllideb. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu Fforwm Ieuenctid ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn ddiweddar. Nod y Fforwm Ieuenctid yw datblygu ymgysylltiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac annog ymglymiad a chyfranogiad pobl ifanc yn y broses ymgysylltu.

32 Comisiynwyd y Tîm Ymglymiad Gweithredol (AIT) yng Nghyngor Sir Caerdydd i ymgysylltu â disgyblion o ystod o ysgolion yng Nghaerdydd i gyfrannu at ddatblygu Gweledigaeth Addysgol 2020 (Cyngor Sir Caerdydd, 2016). Gan ddefnyddio ystod eang o sesiynau rhyngweithiol, bu'r Tîm Ymglymiad Gweithredol yn gweithio gyda 236 o ddisgyblion o bum ysgol gynradd ac uwchradd ar draws y ddinas. Cynhaliwyd gweithdai mewn ystafell ddosbarth, neuadd ysgol neu ar y bws gwasanaeth ieuenctid. Gofynnodd y gweithdai am safbwyntiau disgyblion ar eu profiadau addysg yng Nghaerdydd. Yn ystod y dydd, bu disgyblion yn trafod eu safbwyntiau ar sut olwg dylai fod ar ysgolion Caerdydd yn 2020. Fe wnaethant hefyd drafod beth sy'n gwneud athro da a beth sy'n rhoi pwysau ar blant a phobl ifanc yng Nghaerdydd. Rhoddwyd adborth ar y canfyddiadau i'r Cyfarwyddwr Addysg ac fe'u defnyddiwyd i ddatblygu siarter disgyblion sydd wedi ei chynnwys yng ngweledigaeth strategol y cyngor.

33 Yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cas-blaidd, mae aelodau o'r cyngor ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd, ysgolion yn y clwstwr lleol, a'r awdurdod lleol i rannu strategaethau llwyddiannus sy'n cynnwys cynnal presenoldeb da. Mae'r gweithio agos hwn wedi arwain at y canlynol:

- perthnasoedd gwell gyda rhieni a'r gymuned ehangach
- gwerthfawrogi presenoldeb rhagorol gan rieni a'r gymuned
- gwelliannau mewn presenoldeb mewn ysgolion clwstwr lleol eraill
- dealltwriaeth well ymhlith disgyblion o faterion sy'n ymwneud â nhw yn yr ysgol a'r gymuned ehangach

34 Yn yr arolygiad diweddar, barnwyd bod lles yn rhagorol yn Ysgol Gynradd Gymunedol Cas-blaidd. Yn yr astudiaeth achos isod, rydym wedi amlygu'r elfennau arfer sy'n ymwneud â chyfranogiad effeithiol. Gallwch ddarllen yr astudiaeth achos lawn ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-orau/ymgysylltu-%C3%A2-disgyblion-rhieni-i-wella-presenoldeb-disgyblion

**Astudiaeth achos 5: Ysgol Gynradd Gymunedol Cas-blaidd**

Ymgysylltu â disgyblion a rhieni i wella presenoldeb disgyblion.

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Cas-blaidd yn gwasanaethu pentref gwledig Cas-blaidd a'r ardal gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Sir Benfro. Ar hyn o bryd, mae 42 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys saith disgybl oedran meithrin rhan-amser. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae tua 9% o ddisgyblion wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am

ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw pedwar deg tri y cant o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae tua 21% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol.

**Diwylliant ac ethos**

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar sy'n annog safonau moesol uchel ac ymddygiad da ymhlith disgyblion. Mae staff yn meithrin ethos gofalgar sy'n golygu bod disgyblion yn cael yr un cyfle i elwa ar bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae staff yn hyrwyddo gofal a pharch rhwng disgyblion ac oedolion a rhwng disgyblion a'u cyfoedion yn effeithiol.

Datganiad cenhadaeth yr ysgol yw '*galluogi pob plentyn i ddatblygu fel unigolyn cyfan o ran meddwl, ysbryd a chorff, ac i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol fod yn rhan o gymuned hapus, iach, ddiogel a gofalgar'.* Caiff y datganiad cenhadaeth ei ddeall yn dda gan bawb yn yr ysgol.

**Gweithredu**

Mae'r cyngor ysgol yn gweithio'n frwdfrydig gyda'r pennaeth a'r corff llywodraethol i wella lles ar draws yr ysgol. Blaenoriaeth allweddol i'r cyngor ysgol fu datblygu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd mynd i'r ysgol. Mae wedi canolbwyntio ar annog cyfrifoldeb am bresenoldeb da ymhlith disgyblion.

Mae presenoldeb yn eitem reolaidd ar agenda'r cyngor ysgol. Mae'r pennaeth yn gweithio gyda'r cyngor ysgol i ddadansoddi data presenoldeb yr ysgol a nodi tueddiadau mewn absenoliaeth. Defnyddiodd y cyngor ysgol holiaduron gyda phob un o'r disgyblion i ddarganfod eu safbwyntiau mewn perthynas â phresenoldeb. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn monitro agwedd eu cyfoedion tuag at eu presenoldeb personol ar ffurf holiadur ddwywaith y flwyddyn. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod eang o strategaethau i wella a chynnal presenoldeb da yn yr ysgol. Er enghraifft, maent yn dathlu llwyddiannau disgyblion bob tymor trwy ddefnyddio systemau gwobrwyo. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad disgyblion a'u hagwedd at ddysgu.

O ganlyniad i ddadansoddi deilliannau holiaduron a'r arolwg blynyddol, awgrymodd y cyngor ysgol newidiadau ac addaswyd y polisi presenoldeb sawl gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n mynd ati i ddatblygu'r cynllun gweithredu presenoldeb blynyddol hefyd. Mae cynnwys disgyblion yn gwneud yn siŵr bod ganddynt berchnogaeth o'r polisi a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol. Er mwyn ennyn diddordeb a chefnogaeth rhieni, mae'r cyngor ysgol wedi creu taflen wybodaeth ddefnyddiol am bwysigrwydd presenoldeb da.

Mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyflwyniadau rheolaidd i'r corff llywodraethol yn amlygu pwysigrwydd presenoldeb da. Mae'r cyflwyniadau hyn yn gwneud yn siŵr bod presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ysgol.

**Deilliannau**

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn rhagorol. Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% uchaf yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o bwysigrwydd mynd i'r ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi creu pamffled i annog a chynnal presenoldeb uchel ac wedi ei rannu ag ysgolion eraill yn y dalgylch. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar bresenoldeb yn Ysgol Cas-blaidd ynghyd â phresenoldeb mewn ysgolion eraill.

Mae gwella a chynnal presenoldeb wedi cyfrannu'n sylweddol at y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

35 Yn Ysgol Gynradd Llanllechid, mae disgyblion a staff yn gweithio gyda'i gilydd i nodi meysydd allweddol i'w gwella. Nodwedd eithriadol o waith y cyngor ysgol yw ei pherthynas uniongyrchol â rhieni i roi gwybod iddynt am eu gwaith a chael eu cefnogaeth. Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei waith i rieni yn rheolaidd trwy gylchlythyrau. Yn yr arolygiad diweddaraf, barnwyd bod lles yn rhagorol. Nodwyd bod cyfraniad grwpiau llais y disgybl at fywyd a gwaith yr ysgol yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

**Astudiaeth achos 6: Ysgol Gynradd Llanllechid**

Mae disgyblion yn gweithio gyda staff, rhieni a llywodraethwyr i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol.

**Cyd-destun**

Mae Ysgol Gynradd Llanllechid wedi ei lleoli ar gyrion pentref Rachub ger tref Bethesda. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae 261 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys 31 o ddisgyblion oedran meithrin rhan-amser.

Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol. Daw llawer o ddisgyblion o gartrefi Cymraeg. Mae tua 11% ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn ohonynt sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

**Diwylliant ac ethos**

Ceir ethos cynhwysol, cefnogol a chyfeillgar yn Ysgol Llanllechid, ac fe gaiff disgyblion gyfle cyfartal i gymryd rhan yn ei holl weithgareddau. Rhoddir pwyslais ar ddangos parch a chwrteisi at bawb, sy'n arwain at amgylchedd diogel sy'n meithrin gofal a goddefgarwch am bobl eraill. Mae llais y disgyblion yn ganolog i'r holl brofiadau dysgu ar draws yr ysgol.

**Gweithredu**

Caiff cyfranogiad disgyblion a'r cyngor ysgol eu cydlynu gan aelod o'r uwch dîm arweinyddiaeth. Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod bob wythnos i rannu syniadau a thrafod meysydd i'w gwella yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn mynd ati i gynnwys disgyblion yn holl feysydd gwella'r ysgol ac mae'n ymgysylltu â nhw yn rheolaidd wrth arfarnu ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithio gyda'r cydlynydd addysg gorfforol i arfarnu ansawdd gwersi addysg gorfforol. Fe wnaethant gynnal trafodaethau â'r cydlynydd, arsylwi gwersi ac adrodd yn ôl wrth y cydlynydd, yr athrawon a'r disgyblion. Nododd disgyblion arfer ragorol mewn gwersi addysg gorfforol a rhai meysydd i'w gwella. O ganlyniad i'r argymhellion a wnaed gan ddisgyblion, adolygodd yr ysgol ei pholisi a'i disgwyliadau ynghylch gwisg ysgol yn ystod gwersi addysg gorfforol.

Mae aelodau o'r cyngor wedi cynnal ymgyrch lwyddiannus i wella arferion darllen eu cyd-ddisgyblion ar draws yr ysgol. Datblygodd y cyngor ysgol holiadur i gael gwybod mwy am arferion darllen disgyblion. Dadansoddodd y deilliannau yn ofalus a nododd gryfderau a meysydd i'w gwella yn narllen disgyblion. Adroddodd yn ôl ar ei ganfyddiadau mewn gwasanaeth ysgol gyfan. Adroddodd yn ôl hefyd a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r uwch dîm arweinyddiaeth a'r llywodraethwyr yn ystod cyfarfod tymhorol. Gweithredodd uwch arweinwyr yn unol â'r canfyddiadau, er enghraifft i ddatblygu cysylltiadau agosach â'r llyfrgell leol i gefnogi darllen rhai disgyblion ar draws yr ysgol.

Adroddodd y cyngor ysgol am ei ganfyddiadau wrth rieni a gofalwyr trwy lythyr i ennyn diddordeb rhieni i gefnogi'r ymgyrch i wella arferion darllen ar draws yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd darllen yn rheolaidd ac mae llawer ohonynt wedi ymuno â'r llyfrgell leol gyda chefnogaeth gan eu rhieni.

Yn Ysgol Gynradd Llanllechid, mae disgyblion yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu trwy arfarnu gwersi a meysydd cwricwlaidd, a helpu i greu polisïau.

**Deilliannau**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt. Mae disgyblion yn ymateb yn hyderus i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu a gwneud penderfyniadau.

Mae aelodau o'r cyngor ysgol yn cydweithredu â staff, rhieni, eu cyfoedion a'r gymuned leol hefyd. Fel aelodau o'r cyngor ysgol, maent yn ennill medrau personol, cymdeithasol a threfniadaethol. Maent hefyd yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy drafod materion sydd o bwys iddynt gydag ystod o randdeiliaid.

Bernir bod lles yn yr ysgol yn rhagorol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn datblygu eu medrau meddwl a dysgu annibynnol yn llwyddiannus.

**Hyfforddi a datblygu**

36 Nodwedd gref o'r ysgolion y gwnaed arolwg ohonynt yw eu hymrwymiad i hyfforddiant parhaus ar gyfer disgyblion, staff a llywodraethwyr. Yn yr ysgolion hyn, mae pob un o'r staff yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o fanteision cyfranogiad disgyblion. Caiff disgyblion hyfforddiant cynhwysfawr, sy'n rhoi'r medrau a'r hyder iddynt gymryd rhan yn effeithiol. Mae'r hyfforddiant a'r anogaeth hon yn cynorthwyo disgyblion i gymryd rhan weithredol mewn cyfranogi a gwneud penderfyniadau. Er bod gan staff a nodwyd rôl allweddol mewn hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad disgyblion, mae'r ysgolion hyn yn deall mai cyfrifoldeb pawb yw hyn.

37 Yn Ysgol Arbennig Heronsbridge, cydnabu uwch arweinwyr fod angen datblygu medrau disgyblion a chyflwyno ystod o strategaethau arloesol i wneud yn siŵr bod pob aelod o gymuned yr ysgol yn cyfranogi. Ym Mehefin 2014, barnwyd bod yr ysgol yn rhagorol yn eu harolygiad ar gyfer perfformiad presennol a rhagolygon gwella.

**Astudiaeth achos 7: Ysgol Arbennig Heronsbridge**

Mae disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu trwy weithio gyda staff i addasu rhaglenni astudio.

**Cyd-destun**

Ysgol breswyl arbennig awdurdod lleol yw Heronsbridge, a gynhelir gan awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed. Mae 237 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Mae bron pob un ohonynt yn mynychu bob dydd.

Mae gan lawer o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae gan ddisgyblion yn yr ysgol ystod o anawsterau, gan gynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau dysgu difrifol ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith gartref. Ar hyn o bryd, mae ychydig dros 5% o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae tua 40% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan, sef 43% ar gyfer ysgolion arbennig a gynhelir.

**Diwylliant ac ethos**

Mae gan y pennaeth a'r uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n cael ei deall yn llawn a'i rhannu gan bob un o'r staff a'r llywodraethwyr. Maent yn mynegi eu disgwyliadau uchel ac yn cynnal diwylliant cadarnhaol

yn yr ysgol. Arwyddair yr ysgol yw: ‘Gyda’n gilydd, gallwn’ (Together we can’) a’i werthoedd yw annibyniaeth, lles, cyfle a chynaliadwyedd. Mae’r rhain yn llywio ac yn arwain gweithgareddau’r ysgol.

Ceir ethos cefnogol a chadarnhaol ar draws yr ysgol gyda ffocws cryf ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae’r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm.

**Gweithredu**

Caiff cyfranogiad disgyblion ei gydlynu gan uwch aelod o staff sy’n gyfrifol am les ar draws yr ysgol. Mae’r rôl gydlynu yn golygu bod llinellau cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch dîm arweinyddiaeth, y corff llywodraethol a’r disgyblion. Caiff disgyblion adborth amserol a sensitif gan yr aelod staff enwebedig ar eu hawgrymiadau a’u hargymhellion.

Mae’r ysgol wedi blaenoriaethu hyfforddiant a chymorth ar gyfer disgyblion i wneud yn siŵr bod cyfleoedd cyfranogi yn berthnasol i anghenion a galluoedd cymuned yr ysgol. Er enghraifft, mae cwmni drama lleol wedi bod yn gweithio gyda’r disgyblion i ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth o gyfranogiad mewn modd sensitif ac yn briodol i anghenion. Mae hyn wedi datblygu medrau personol a chymdeithasol disgyblion ac wedi cyfrannu at wneud cyfranogi yn fwy ystyrlon i lawer o ddisgyblion.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn arfarnu eu profiadau dysgu ar ddiwedd yr uned waith. Mae’r ysgol wedi datblygu ystod o strategaethau effeithiol i oresgyn rhwystrau rhag cyfathrebu a gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael cyfle i arfarnu eu dysgu eu hunain. Mae’r rhain yn cynnwys defnyddio’r canlynol:

- ystumiau lle mae disgyblion yn dangos ffafriaeth
- lluniau neu ffotograffau y gall disgyblion eu cyfleu trwy ddarlunio eu hymatebion neu bwyntio at y lluniau
- systemau cyfathrebu fel y systemau cyfathrebu trwy gyfnewid lluniau
- disgrifiadau ysgrifenedig

Mae disgyblion yn graddio’r uned waith gyda chymorth gan staff gan ddefnyddio system goleuadau traffig a ddeellir yn dda. Mae rhai disgyblion yn llenwi holiaduron sydd wedi eu teilwra i’w hanghenion ac mae llawer ohonynt yn cyfrannu trwy ymatebion lluniau a chwestiynau llafar. Mae disgyblion iau yn arfarnu eu gwaith a thestunau yn effeithiol gan ddefnyddio ‘wynebau hapus’. Mae athrawon yn casglu arfarniadau disgyblion o’u profiadau dysgu personol ar ddiwedd y tymor. Caiff y rhain eu dadansoddi’n ofalus a’u defnyddio i lywio cynllunio’r athrawon. Mae uwch arweinwyr yn mireinio cynnig y cwricwlwm yn briodol wrth ymateb i safbwyntiau disgyblion.

**Deilliannau**

Mae cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad disgyblion sy’n cael eu trefnu’n fedrus yn cyfrannu at ddatblygu hunanhyder a medrau cymdeithasol disgyblion.

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hannibyniaeth ac yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol amdanyn nhw eu hunain a'u dysgu yn unol â'u hanghenion a'u gallu.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hyderus wrth gyfleu eu hanghenion yn glir, naill ai ar lafar, trwy arwyddo neu ddefnyddio system gyfathrebu trwy gyfnewid lluniau.

Mae cynlluniau'r cwricwlwm y mae disgyblion yn dylanwadu arnynt yn rheolaidd, yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth, medrau a diddordeb disgyblion.  Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda yn eu gwersi, ac mae eu hymddygiad yn y dosbarth ac yn ystod adegau anstrwythuredig o'r dydd yn rhagorol.

O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion hŷn yn ennill cymwysterau priodol mewn cyrsiau achredadig sy'n gweddu'n dda i'w galluoedd, eu hanghenion a'u diddordebau.

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae canfyddiadau'r arolwg wedi eu seilio ar y dadansoddiad o ganfyddiadau o arolygiadau a chyfweliadau ffôn dilynol lle nodwyd arfer dda yng nghyfranogiad disgyblion. Mae'r adroddiad yn ystyried effeithiolrwydd strategaethau cyfranogi trwy gynnwys disgyblion mewn trafodaethau ystyrlon a'u hannog i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u lles.

Rhwng Medi 2013 ac Awst 2016, cynhaliwyd 634 o arolygiadau cynradd, 106 o arolygiadau uwchradd ac 19 o arolygiadau ysgolion arbennig. Barnwyd bod lles yn rhagorol mewn 7% o'r ysgolion cynradd hyn, 13% o'r ysgolion uwchradd ac 16% o'r ysgolion arbennig. Mewn llawer o'r ysgolion hyn, mae presenoldeb, ymddygiad, ymgysylltu â dysgu a medrau bywyd yn nodweddion cryf. Bron ym mhob un o'r ysgolion hyn, mae strwythurau cyfranogol addas ar waith i wneud yn siŵr bod disgyblion yn cael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u lles.

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio dadansoddiad o 15 arolygiad ysgol gynradd, pum arolygiad ysgol uwchradd a phedwar arolygiad ysgol arbennig. Cynhaliwyd cyfweliad dilynol dros y ffôn ar gyfer naw ysgol. Mae'r sampl yn defnyddio arferion o bob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol ac yn ystyried cefndir economaidd gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol. Mae'r adroddiad yn ystyried arweiniad a chyhoeddiadau arfer dda gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

**Rhestr o arolygiadau ysgol y gwnaed arolwg ohonynt**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Gymunedol Glasllwch, Casnewydd | Ysgol Gynradd Gymunedol Llanmiloe, Caerfyrddin |
| Ysgol Gynradd Santes Gwladys, Caerffili | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed, Abertawe * |
| Ysgol Gynradd Hafod, Abertawe * | Ysgol Uwchradd Aberteifi, Ceredigion * |
| Ysgol Gynradd Cwmfelinfach, Caerffili | Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Iau Llangewydd, Pen-y-bont ar Ogwr | Ysgol Gyfun Pontarddulais, Abertawe |
| Ysgol Gynradd Severn, Caerdydd | Ysgol Bryn Elian, Conwy |
| Ysgol Gynradd Llysfaen, Caerdydd | Ysgol Penmaes, Powys * |
| Ysgol Melyd, Sir Ddinbych | Ysgol Heronsbridge, Pen-y-bont ar Ogwr * |
| Ysgol Gynradd Rhiw Dafydd, Caerffili | Ysgol Arbennig Y Llys, Caerdydd |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Cas-blaidd, Sir Benfro * | Ysgol Sant Christopher, Wrecsam |
| Ysgol Gynradd Llanllechid, Gwynedd * | |
| Ysgol Gynradd Cae Top, Gwynedd | |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands, Torfaen * | |
| Ysgol Gynradd Victoria, Bro Morgannwg * | *dilynwyd â chyfweliad dros y ffôn |

Mae Estyn yn defnyddio holiadur i ddisgyblion cyn pob arolygiad hefyd. Mae'r holiadur i ddysgwyr ysgolion uwchradd yn gofyn nifer o gwestiynau perthnasol yn ymwneud â deall hawliau disgyblion a chyfranogiad disgyblion. Mae dros 51,000 o ddisgyblion wedi llenwi'r holiadur ers ei gyflwyno ym Medi 2010. Dangosir y deilliannau cyffredinol ar gyfer cwestiynau'n ymwneud â hawliau a chyfranogiad plant yn nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Ymatebion i'r holiadur ar gyfer dysgwyr ysgolion uwchradd, 2010-2011 i 2015-2016***

| | **% yr ymatebion** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Cytuno'n gryf** | **Cytuno** | **Anghytuno** | **Anghytuno'n gryf** |
| | | | | |
| Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn eu parchu. | 29% | 50% | 17% | 4% |
| Mae'r ysgol yn gwrando ar ein safbwyntiau ac yn gwneud newidiadau rydym yn eu hawgrymu. | 17% | 53% | 25% | 5% |
| Rydw i'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. | 35% | 59% | 5% | 1% |
| Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. | 38% | 53% | 7% | 2% |
| Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. | 37% | 55% | 7% | 1% |

*Mae'n cynnwys yr holl ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr uwchradd o sectorau uwchradd, arbennig a gynhelir ac annibynnol prif ffrwd

# Atodiad 2: Safonau cyfranogiad cenedlaethol plant a phobl ifanc




## Safonnau Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru dros Plant a Phobl ifanc:

## Children and Young People's National Participation Standards

"Mae gan blant hawl i ddweud beth maen nhw'n meddwl ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i gael sylw i'w barn"
**Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

"Children have the right to say what they think should happen, when adults are making decisions that affect them, and to have their opinions taken into account"
**Article 12: The United Nations Convention on the Rights of the Child**

| Mae hyn yn golygu: | Byddwn ni: | | This means: | We will: |
|---|---|---|---|---|
| • Mae gennych chi'r hawl i wybodaeth sy'n hawdd ei deall ac sy'n gadael i chi wneud penderfyniad gwybodus. | • Yn darparu gwybodaeth o safon dda, yn glir ac yn hawdd mynd ati.<br>• Yn rhoi gwybod i chi am bwy sy'n mynd i wrando a gadael i chi wybod pa wahaniaeth gallai'ch cyfranogiad chi ei wneud. | **1** Gwybodaeth<br>Information | • You have the right to information that is easy to understand and allows you to make an informed decision. | • Provide information that is good quality, clear and accessible.<br>• Inform you about who's going to listen and let you know what difference your involvement could make. |
| • Mae gennych chi'r hawl i ddewis cymryd rhan a gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi. | • Yn rhoi digon o gefnogaeth ac amser i chi ddewis a ydych chi eisiau cymryd rhan. | **2** Chi biau'r dewis<br>It's your choice | • You have the right to choose to be involved and work on things that are important to you. | • Give you enough support and time to choose if you want to get involved. |
| • Mae plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ac mae ganddyn nhw'r hawl i gael eu trin yn deg. | • Yn herio gwahaniaethu.<br>• Yn cynnig amrediad o gyfleoedd a chefnogaeth i fodloni anghenion plant a phobl ifanc. | **3** Dim gwahaniaethu<br>No discrimination | • Children and young people are all different and have the right to be treated fairly. | • Challenge discrimination.<br>• Provide a range of opportunities and support to meet the needs of children and young people. |
| • Mae gennych chi'r hawl i leisio barn. Mae'ch safbwyntiau chi'n bwysig a byddan nhw'n cael eu parchu. | • Yn gwrando ar eich barn, profiad a syniadau ac yn eich cymryd chi o ddifri.<br>• Yn gweithio gyda chi ar bethau rydych chi'n dweud eu bod nhw'n bwysig.<br>• Yn gwerthfawrogi beth sydd gennych chi i'w gynnig. | **4** Parch<br>Respect | • You have the right to have a say. Your opinions are important and will be respected. | • Listen to your views, experiences and ideas and take you seriously.<br>• Work with you on things you say are important.<br>• Value what you have to offer. |
| • Mae gennych chi'r hawl i ddysgu a bod y gorau gallwch chi fod.<br>• Bydd gennych chi gyfleoedd i weithio gyda phobl eraill a gwneud gwahaniaeth.<br>• Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan mewn profiadau positif. | • Yn gweithio gyda chi mewn ffordd ddiogel, hwyl a phleserus.<br>• Yn manteisio i'r eitha ar beth rydych chi'n ei wybod ac yn gwneud pethau sy'n magu'ch hyder a'ch sgiliau chi. | **5** Bod ar eich ennill<br>You get something of it | • You have the right to learn and be the best you can be.<br>• You will have opportunities to work with others and make a difference.<br>• We want you to be involved in positive experiences. | • Work with you in safe, fun and enjoyable ways.<br>• Make the most of what you know and do things that build your confidence and skills. |
| • Mae gennych chi'r hawl i wybod pa wahaniaethau rydych chi wedi eu gwneud a gwybod bod rhywun wedi gwrando ar eich syniadau chi. | • Bob amser yn sicrhau eich bod chi'n cael adborth o fewn amser sydd wedi'i gytuno.<br>• Yn dweud wrthych chi sut mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio a pham.<br>• Yn dweud wrthych chi beth sy'n digwydd nesaf. | **6** Adborth<br>Feedback | • You have the right to know what differences you have made and how your ideas have been listened to. | • Always ensure you have feedback in an agreed time.<br>• Tell you how your ideas have been used and why.<br>• Tell you what happens next. |
| • Dylai'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc roi hawliau plant yng nghanol popeth maen nhw'n ei wneud. | • Yn gweithio gyda chi ac yn dysgu sut i wneud pethau'n well a gwneud newidiadau i sut rydyn ni'n gweithio.<br>• Yn gwneud yn siŵr bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd rydyn ni'n gwneud cynlluniau a phenderfyniadau. | **7** Gweithio'n well drosoch chi<br>Working better for you | • Those who make decisions that affect children and young people should put children's rights at the centre of everything they do. | • Work with you and learn how we can do things better<br>• Ensure your views make a difference to the way we make plans and decisions. |

Mae'r Safonau'n cefnogi 3D CCUHP - Diogelu, Darpariaeth a Dweud eich Dweud
The Standards support the 3Ps of the UNCRC – Protection, Provision & Participation

Cymru Ifanc
Young Wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol - National Participation Standards

## Atodiad 3: Cynnwys disgyblion mewn rhestrau gwirio arferion

**Cynnwys disgyblion mewn rhestrau gwirio arferion:**

**A yw staff a disgyblion yn cymryd rhan mewn deialog am addysgu a dysgu?**

- A yw staff yn defnyddio ystod eang o gyfleoedd anffurfiol i ddechrau deialog â disgyblion am eu dysgu?
- A oes amser yn cael ei neilltuo i staff a disgyblion drafod targedau ar gyfer dysgu; adolygu cynnydd; cytuno ar dargedau diwygiedig?
- A gaiff disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig eu cynnwys yn weithredol ac yn ystyrlon yn y broses Adolygu Blynyddol?
- A yw staff yn ceisio ehangu cyfleoedd disgyblion yn gyson i fynegi eu safbwyntiau, anghenion, diddordebau, dewisiadau, ffafriaethau a phenderfyniadau trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu confensiynol, cynyddol ac amgen?
- A yw staff yn gwneud pob ymdrech i ddatblygu ffyrdd y gellir cynnwys disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn weithredol fel cyfranogwyr mewn cyfarfodydd ffurfiol, fel y rheiny a gynhelir fel rhan o’r broses Adolygu Blynyddol ac Adrodd Blynyddol?
- A gaiff targedau ar gyfer gwella dysgu a pherfformiad y disgyblion eu hunain eu cynnwys mewn CAUau a chynlluniau unigol eraill lle bo’n briodol?
- A yw staff yn cael hyfforddiant mewn gwrando gweithredol, cwnsela, cynnal sesiynau tiwtorial, neu fedrau mentora?

**A yw staff yn mynd ati i hyrwyddo gallu disgyblion i feddwl?**

- A oes gwersi’n cael eu neilltuo i addysgu medrau meddwl, medrau astudio a medrau ar gyfer dysgu yn uniongyrchol?
- A yw staff yn adolygu cynlluniau gwaith ar gyfer pob pwnc er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu medrau allweddol a medrau meddwl?
- A yw medrau allweddol, er enghraifft medrau datrys problemau a medrau ar gyfer dysgu, yn cael eu hyrwyddo’n weithredol mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm?
- A gaiff disgyblion eu hannog i greu perthnasoedd ‘cyfeillio’, tiwtora cyfoedion, cylchoedd o ffrindiau a mentora ffurfiol ac anffurfiol sy’n canolbwyntio ar fedrau personol a chymdeithasol, ymddygiad cadarnhaol, strategaethau goroesi ac addysgu a dysgu?

**A yw disgyblion yn cynnig eu syniadau eu hunain?**

- A oes gan gynrychiolwyr o’r cyngor myfyrwyr ran weithredol mewn dewis staff?
- A yw disgyblion yn gweithredu fel asiantau rheoli mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel datblygu’r ysgol?
- A gaiff disgyblion eu cynnwys yn y canlynol:
  - codau ymddygiad ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth ystafell ddosbarth?
  - dulliau ysgol gyfan ar gyfer polisi ac arfer wrth reoli ymddygiad?
  - polisi mewn perthynas â pherthnasoedd mentora bwlio rhwng disgyblion

unigol sydd ag ymddygiadau anodd?
- A yw disgyblion yn cymryd rhan yn y broses datblygu sefydliadol ar lefel ysgol gyfan, er enghraifft trwy gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor ysgol?

**A yw staff yn rhoi sylw i farn a safbwyntiau disgyblion?**

- A gaiff safbwyntiau disgyblion eu trafod fel eitem reolaidd ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd staff, cyfarfodydd yr uwch dîm rheoli a chyfarfodydd y corff llywodraethol?
- A yw staff yn annog, hwyluso ac yn ymateb yn adeiladol i syniadau a mentrau a gynigir gan ddisgyblion?
- A yw staff yn cynnwys disgyblion mewn trafodaethau adeiladol am syniadau a mentrau a gynigir gan ddisgyblion eraill?
- A yw staff yn ystyried dehongliadau rhieni/gofalwyr o farn a safbwyntiau disgyblion?
- A yw staff yn ystyried dehongliadau asiantaethau eraill o farn a safbwyntiau disgyblion, er enghraifft iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, y sector gwirfoddol?

**A yw llywodraethwyr yn rhoi sylw i farn a safbwyntiau disgyblion?**

- A yw'r corff llywodraethol yn ceisio ethol neu gyfethol cynrychiolaeth o unigolion sydd ag anableddau dysgu a/neu anableddau eraill yn y gymuned leol?
- A yw aelodau o'r corff llywodraethol yn ymateb yn gadarnhaol i wahoddiadau i fynychu cyfarfodydd y cyngor ysgol, a chymryd rhan ynddynt?
- A oes yna lywodraethwyr 'cyswllt' sydd â chyfrifoldeb i wrando'n rheolaidd ar farn disgyblion naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol?
- A yw'r corff llywodraethol yn cael adroddiadau gan y cyngor ysgol a/neu adroddiadau am waith y cyngor ysgol, ac yn ymateb yn adeiladol iddynt?

**A yw uwch reolwyr yn rhoi sylw i farn a safbwyntiau disgyblion?**

- A yw'r ysgol yn mynegi ei gwerthoedd am ymglymiad disgyblion yn glir?
- A yw uwch reolwyr yn adolygu'r berthynas rhwng polisi a nodwyd ac arfer yn rheolaidd?
- A yw uwch reolwyr yn sicrhau bod llinellau cyfathrebu yng nghymuned yr ysgol yn aros yn agored?
- A yw uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad i glywed barn pob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys safbwyntiau disgyblion?
- A yw uwch reolwyr yn darparu model o barchu ac ymateb i farn aelodau eraill o gymuned yr ysgol?
- A gaiff barn disgyblion ei hadrodd yn ôl wrth uwch reolwyr a llywodraethwyr trwy ystod o ddulliau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng staff, er enghraifft cyfarfodydd rheolaidd gyda chynorthwywyr goruchwylio canol dydd, cynorthwywyr cymorth dysgu, cyfarfodydd datblygiad personol a phroffesiynol staff, ac ati?

**A yw systemau a gweithdrefnau'r ysgol yn ystyried safbwyntiau disgyblion?**

- A oes gan yr ysgol weithdrefnau cymorth, arweiniad, awgrymiadau a chwynion i

ddisgyblion sydd ar gael yn rhwydd, yn cael eu deall a'u defnyddio gan ddisgyblion pan fydd angen?

- A yw'r ysgol yn defnyddio ystod o ddulliau ar gyfer casglu safbwyntiau a chanfyddiadau disgyblion, er enghraifft trwy holiaduron, cyfweliadau, neu adroddiadau amser cylch?
- A gaiff data ei gasglu trwy holiaduron i ddisgyblion, cyfweliadau a'i ddefnyddio wrth ddatblygu cynnwys y cwricwlwm (yr hyn sy'n cael ei addysgu i ddisgyblion), addysgeg effeithiol (sut caiff disgyblion eu haddysgu), amgylchedd ysgol gwell, adnoddau gwell a hinsawdd well ar gyfer dysgu?
- A wrandewir ar sylwadau a barnau disgyblion am eu profiadau ysgol, a gânt eu gwerthfawrogi, a lle bo'n briodol, a weithredir yn unol â nhw?
- A gaiff barn disgyblion ei chynnwys ym mhroses datblygu'r ysgol trwy amser cylch, gwersi addysg bersonol a chymdeithasol, sesiynau tiwtorial, cyfarfodydd adolygu neu gynllunio gweithredu unigol?
- A yw'r cynllun datblygu ysgol yn cynnwys targedau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau a nodwyd gan ddisgyblion a myfyrwyr?
- A gaiff staff eu hannog i fod yn gyfranogwyr myfyriol, gan ailarfarnu eu gwaith yng ngoleuni safbwyntiau disgyblion a dechrau cyfeillgarwch allweddol gyda chydweithwy?

**Jelly, Fuller a Byers (2000)**

# Atodiad 4: Geirfa

| | |
|---|---|
| Safonau cyfranogiad | Datblygwyd **Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc ar gyfer Cymru** i blant a phobl ifanc, a gyda nhw, yn amlinellu'r modd y gellir cynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau mewn ffyrdd ystyrlon ac effeithiol.<br><br>Mae'r dogfennau safonau a hunanarfarnu yn cynnig arweiniad i ysgolion ac yn dangos arfer dda ym mhroses cyfranogiad plant a phobl ifanc.<br><br>http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/oedolion/amdanon-ni/beth-yw-cyfranogi/ |
| CCUHP | Cytundeb rhwymedig cyfreithiol yw **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** sy'n amlinellu **hawliau sifil, gwleidyddol, cymdeithasol** a **diwylliannol** pob plentyn, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd neu'i alluoedd. |
| Gwobr Parchu Hawliau Ysgolion | Mae Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RRSA) Unicef UK yn cefnogi ysgolion ledled y DU i ymgorffori hawliau dynol plant yn eu hethos a'u diwylliant. Mae'r wobr yn cydnabod cyflawniad wrth roi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth wraidd arfer ysgol i wella lles a helpu'r holl blant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial. |

## Cyfeiriadau

Donaldson, G (2015), *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/dcells/publications/150317-successful-futures-cy.pdf [Defnyddiwyd 5 Mai 2016].

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2005) *Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005.* (Offeryn statudol 3200). Llundain: Stationery Office Ltd. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2005/3200/pdfs/wsi_20053200_mi.pdf [Defnyddiwyd 5 Mai 2016].

UNICEF UK (1990) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* Llundain: UNICEF. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/ [Defnyddiwyd 5 Mai 2016]. (Saesneg yn unig.)

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004a) *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/caecd/publications/090415rightstoactioncy.pdf [Defnyddiwyd 5 Mai 2016

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004b) *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/docs/caecd/publications/090415rightstoactioncy.pdf [Defnyddiwyd 10 Mai 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau?* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael from: http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/uploads/publications/12.pdf [Defnyddiwyd 5 Mai 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011) *Cyfranogiad disgyblion- canllaw arfer da* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/uploads/publications/541.pdf [Defnyddiwyd 5 Mai 2016].

Llywodraeth Cymru (2010) *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [Ar-lein]. Ar gael o: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/child-poverty/childrenandfamilies/?lang=cy [Defnyddiwyd 10 Mai 2016].